Cynulliad Cenedlaethol Cymru | National Assembly for Wales
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg | Children, Young People and Education Committee
Ymchwiliad i Gwella Iechyd Emosiynol ac Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc | Inquiry into The Emotional and Mental Health of Children and Young People
EMH 30
Ymateb gan: Comisiynydd y Gymraeg
Response from: Welsh Language Commissioner

Meri Huws
Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner



Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

Lynne Neagle AC
Cadeirydd
Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru

Drwy e-bost: SeneddPPIA@cynulliad.cymru

27/09/2017

Annwyl Lynne,

**Ymchwiliad i wella iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru**

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn croesawu'r cyfle i gyflwyno tystiolaeth i'r ymchwiliad hwn ynghylch gwella iechyd emosiynol ac iechyd meddwl plant a phobl ifanc yng Nghymru.

Cyflwynir tystiolaeth i gynorthwyo'r Pwyllgor wrth iddo fynd ati i ystyried y graddau mae'r Adolygiad Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed – y 'Rhaglen Wella Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc' – ar y trywydd iawn wrth gyflwyno'r gwelliannau oedd eu hangen i'r ddarpariaeth. Mae hwn yn faes lle bo diwallu anghenion unigolion, gan gynnwys eu hanghenion ieithyddol, yn gwbl greiddiol i ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau.

## 1. Cefndir

Prif nod y Comisiynydd yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw at y ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Mae dwy egwyddor yn sail i waith y Comisiynydd:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru;
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny.

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

## 2. Tystiolaeth Comisiynydd y Gymraeg i'r Ymchwiliad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS)

Ym mis Chwefror 2014, cyflwynais dystiolaeth i ymchwiliad rhagflaenydd y Pwyllgor hwn yn y Pedwerydd Cynulliad. Yn yr ymateb hwnnw, pwysleisiais yr angen i gynnal gwasanaeth Cymraeg llawn o fewn gwasanaethau iechyd meddwl plant a'r glasoed er mwyn diwallu anghenion ieithyddol yr unigolyn mewn maes hynod o sensitif, lle bo iaith yn gyfrwng cyfathrebu ac hefyd yn gyfrwng therapi. Mae'r ymateb wedi'i gyhoeddi ac ar gael i'w weld ar wefan y Comisiynydd.[1]

Ers hynny, nodaf y cyhoeddwyd adroddiad yr ymchwiliad ym mis Tachwedd 2014 ac y bu i'r Gweinidog ar y pryd gyhoeddi adolygiad allanol 'gwraidd a brig' o'r CAMHS.[2] Maes o law, gwnaeth hyn esgor ar y 'Rhaglen Wella Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc'.

## 3. Y cyd-destun polisi a deddfwriaeth cyfredol

Nodaf y bydd y Pwyllgor yn ystyried y dystiolaeth sy'n dod i law fel rhan o'r ymchwiliad hwn yng nghyd-destun y gwaith o weithredu *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 a Mesur Hawliau Plant a Phobl Ifanc (Cymru) 2011.*

Hoffwn bwysleisio fod y darnau hyn o ddeddfwriaeth yn creu'r gofyn i asesu anghenion ieithyddol ac ystyried y Gymraeg mewn gwahanol agweddau ar asesu a chynllunio'r ddarpariaeth iechyd a gofal.

- Gofynnaf i'r Pwyllgor felly gadw hyn mewn cof wrth bwyso a mesur y graddau y bu newidiadau mewn ansawdd ac argaeledd gwasanaethau CAMHS drwy gyfrwng y Gymraeg o'r herwydd ac unrhyw welliannau pellach sydd eu hangen.

Mae cyflwyno *Fframwaith Strategol Olynol Mwy na Geiriau...* yn 2016, ynghyd â gosod safonau'r Gymraeg ar nifer o gyrff yn y sector cyhoeddus – gan gynnwys Llywodraeth Cymru a'r awdurdodau lleol – hefyd yn ddatblygiadau diweddar o bwys ers yr ymchwiliad a'r adolygiad gwreiddiol. Cynhaliodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad ar gynnwys Rheoliadau drafft safonau'r Gymraeg ar gyfer y cyrff iechyd yn benodol y llynedd, a disgwylir i'r rheoliadau terfynol gael eu gosod gerbron Cynulliad Cenedlaethol Cymru cyn diwedd y flwyddyn hon. Bydd hyn yn galluogi imi osod safonau'r Gymraeg ar y cyrff iechyd.

---

[1] Comisiynydd y Gymraeg (2014). *Ymchwiliad i Wasanaethau Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) – Tystiolaeth Comisiynydd y Gymraeg.* Ar gael: http://www.comisiynyddygymraeg.cymru/Cymraeg/Rhestr%20Cyhoeddiadau/LL%20C%20Plant.pdf

[2] http://senedd.cynulliad.cymru/documents/s34408/Adroddiad%20Tachwedd%202014.pdf

Comisiynydd y Gymraeg
Welsh Language Commissioner

- Gofynnaf i'r Pwyllgor ystyried cynnydd y 'Rhaglen Wella Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc' ar y cyd â'r datblygiadau i'r fframwaith polisi a deddfwriaeth sy'n cefnogi defnyddio'r Gymraeg yn y maes hwn.

- Hyderaf y bydd y Pwyllgor hefyd yn dymuno rhoi sylw i p'un a ddylid diwygio'r *Fframwaith Gweithredu Law yn Llaw at Blant a Phobl Ifanc* ar gyfer adlewyrchu'r newidiadau hyn a chanolbwyntio blaenoriaethau o ran y Gymraeg, ynghyd â'r amcanion llesiant.

## 4. Gwasanaethau arbenigol a chydweithio

Mae'r Comisiynydd wedi derbyn pryderon ynghylch diffyg capasiti i ddarparu gwasanaethau arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg, megis gwasanaethau ar gyfer unigolion bregus sydd angen cwnsela ar ôl dioddef camdriniaeth rhywiol. Mae'n gyfrifoldeb ar CAMHS, awdurdodau lleol, a sefydliadau addysg i gydweithio er mwyn ymateb yn llawn i anghenion ieithyddol unigolion mewn sefyllfaoedd o'r fath.

- Gofynnaf felly i'r Pwyllgor roi sylw i'r capasiti presennol ar gyfer darparu gwasanaethau arbenigol drwy gyfrwng y Gymraeg, ac i ba raddau y mae gwasanaethau iechyd, addysg a gofal cymdeithasol yn gweithio gyda'i gilydd i ymateb i'r galw.

## 5. Cyllid

Dylai plant a phobl ifanc dderbyn holl wasanaethau CAMHS o'r un safon ac o fewn yr un amserlen yn y Gymraeg neu'r Saesneg. Yn hyn o beth, mae'n hanfodol bod y gwasanaeth yn recriwtio nifer ddigonol o staff dwyieithog i'w alluogi i ddarparu'r dewis iaith allweddol hwnnw i'n plant a phobl ifanc.

- O safbwynt cyllid yn benodol, gofynnaf i'r Pwyllgor ystyried i ba raddau mae unrhyw wariant ychwanegol wedi'i fuddsoddi i ysgogi newidiadau i ganiatáu mynediad teg at wasanaethau mewn modd sy'n parchu anghenion ieithyddol.

## 6. Sylwadau clo

Rwyf am achub ar y cyfle i ailddatgan yr angen i ddarparu gwasanaethau i blant a phobl ifanc yn Gymraeg a phwysigrwydd gwneud hynny i ansawdd ac effeithiolrwydd y gwasanaethau yn y maes hwn. Wrth iddo bwyso a mesur llwyddiant y Rhaglen wrth 'ail-lunio, ail-fodelu ac ail-ganolbwyntio'r gwasanaethau iechyd meddwl a'r gwasanaethau emosiynol a ddarperir i blant a phobl ifanc yng Nghymru', hyderaf y bydd y Pwyllgor yn gytûn ei bod yn briodol ac yn amserol i ystyried y Gymraeg yn hyn o beth. Mae croeso ichi gysylltu â mi pe hoffech drafod unrhyw agwedd ar yr ymateb hwn ymhellach.

Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Yr eiddoch yn gywir,

**Meri Huws**
Comisiynydd y Gymraeg